ADRAN YSTADAU
STRATEGOL

# Cyfle Arlwyo Symudol Parc Bute

# Manylion Eiddo



**Mae'n rhaid i'r holl geisiadau ddod i law erbyn 27ain Tachwedd 2020**

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda’n gilydd
Working for Cardiff, Working together

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

## Cyflwyniad

Hoffai Adran Ystadau Strategol Cyngor Caerdydd wahodd gweithredwyr â diddordeb i dendro am y cyfle i fasnachu mewn 3 man arlwyo dynodedig o uned arlwyo symudol yn rhan ogleddol Parc Bute. Mae gan ddefnyddwyr rhan ganol a deheuol Parc Bute ddewis o 3 chaffi ond mae nifer sylweddol o ddefnyddwyr ond yn mynd drwy'r rhannau gogleddol felly nodwyd bwlch posibl yn y farchnad.

## Cefndir

Mae gogledd Parc Bute yn boblogaidd wrth gynnal chwaraeon ac mae'n cynnwys caeau chwaraeon yn y Gored Ddu, offer ffitrwydd a llwybrau rhedeg, cerdded a beicio poblogaidd. Mae'r myfyrwyr yn y preswylfeydd ar ddwyrain y parc yn defnyddio'r parc yn helaeth. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru mewn uned y tu ôl i Ystafelloedd Newid y Gored Ddu a gallai staff hefyd fod am fanteisio ar y cyfle.

## Lleoliad

Mae lleoliadau safleoedd y cynnig hwn eisoes wedi'u nodi fel y dangosir ar y tudalennau nesaf.

## Cyfleustodau

Nid oes unrhyw wasanaethau penodedig ar gyfer y safleoedd, ond, bydd cyfleusterau dŵr a thoiledau ar gael yn safle 3.

## Ffigurau Defnyddio'r Safle

Anogir partïon â diddordeb i dreulio amser yn y lleoliadau masnachu er mwyn asesu lefelau nifer yr ymwelwyr a nodi oriau brig.


## Masnachu


Mae deiliad y drwydded yn rhydd i ddewis ei ddyddiau ac amseroedd masnachu, ond, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu a monitro hyn yn unol ag adborth gan ymwelwyr. Gan y trwyddedai y bydd yr unig hawliau masnachu dros y 3 safle.

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL


**Lleoliadau**

**Safle 1 - Ger Pont y Gored Ddu: Tua 20 m. sg.**
Nifer dda o ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, poblogrwydd y llwybr cerdded a beicio hwn, agos at Bont y Gored Ddu




**Safle 2** - **Safle ger neuaddau Tal-y-bont: Tua 30 m. sg.**
Nifer dda o ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, poblogrwydd y llwybr cerdded a beicio hwn, agos at lety myfyrwyr, wyneb wedi'i uwchraddio a'i integreiddio i lwybr cerddwyr/beicio ar wahân Heol y Gogledd (tynnwyd y lluniau cyn cwblhau'r cynllun)







Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together


## ADRAN YSTADAU STRATEGOL

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD




**Safle 3 - Ystafelloedd Newid y Gored Ddu**
**Tua 43 m. sg.**
Mantais bod yn agos at y caeau chwarae, agos at swyddfeydd yr Orsaf Ambiwlans a swyddfeydd eraill ar hyd Heol y Gogledd, cyflenwad dŵr ar gael a mynediad i doiled staff (heb ei rannu â'r cyhoedd)



## ADRAN YSTADAU STRATEGOL

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

**<u>Gwybodaeth Asesu</u>**

Mae Cyngor Caerdydd wedi pennu'r meini prawf canlynol er mwyn gwerthuso tendrau a ddaw i law ar gyfer y cyfle hwn. Caiff pob rhan o'ch cais ei bwyso'n erbyn y meini sgorio isod:

- Bwydlen ddangosol â phrisiau - 20%
- Datganiad o brofiad blaenorol a chymwysterau arlwyo - 10%
- Datganiad ar leihau gwastraff a sut bydd y busnes yn ceisio gweithredu mewn ffordd ecogyfeillgar - 10%
- Amserlen fasnachu ddangosol - 10%
- Profiad busnes a chynllun busnes – 10%
- Cynnig ariannol – 40%

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

**Telerau Masnachol Allweddol Arfaethedig**

| | |
|---|---|
| **Tymor** | Trwydded am gyfnod o 12 mis (o ddyddiad i'w gytuno). |
| **Safle** | Bydd "ardal dros dro" yn cael ei hamlinellu'n goch ar y cynllun. |
| **Rhent** | Penderfynir gan gyflwyniadau tendr |
| **Yswiriant** | Y trwyddedai fydd yn gyfrifol am gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol. |
| **Sbwriel** | Y trwyddedai sy'n gyfrifol am glirio sbwriel o fewn cylch o 20m i'r safleoedd. |
| **Hawliau Masnachu** | Gan y trwyddedai fydd yr unig hawliau masnachu dros y safleoedd masnachu. |
| **Diogelwch Bwyd** | Rhaid i'r gweithredwr gyflawni a chynnal sgôr Asiantaeth Safonau Bwyd o 3/5 o leiaf |
| **Mynediad** | Caiff y trwyddedai statws deiliad allwedd er mwyn cael mynediad i'r safleoedd o neuaddau myfyrwyr Tal-y-bont a mynediad i dai bach a dŵr yn yr ystafelloedd newid. |
| **Safleoedd** | Cymerir y safleoedd fel ag y maent, gydag unrhyw waith posibl i'w gynnal gan y trwyddedai. Mae'r holl waith yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gyngor Caerdydd. |
| **Gwastraff** | Caiff gwastraff ei waredu mewn ardaloedd gwastraff masnachol y cytunir arnynt ymlaen llaw ac nid ei roi mewn biniau sbwriel cyhoeddus. |
| **Alcohol** | Ni chaniateir masnachu alcohol a thybaco ac nid ystyrir tendr sy'n cynnwys gwerthu'r naill na'r llall. |
| **COVID-19** | Bydd y trwyddedai'n gyfrifol am lynu wrth reoliadau COVID-19 perthnasol fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU. |
| **Consesiynau Eraill** | Ni chaiff y trwyddedai fasnachu o fewn 500m i unrhyw gonsesiwn arall ym Mharc Bute. |
| **Costau** | Bydd y trwyddedai yn gwneud cyfraniad at ffioedd rhesymol syrfewyr y Cyngor sy'n dod i gyfanswm o £550 a ffioedd cyfreithiol o £460. |
| **Arall** | Bydd y drwydded yn destun unrhyw delerau ac amodau eraill y mae Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor yn eu hystyried yn briodol. |

Ar ôl cwblhau'r broses dendro, nodir y telerau terfynol drwy Benawdau Telerau cytûn.


**Cysylltu:**

Julia Sas (Rheolwr Parc Bute)
Ffôn: 02920 788401
E-bost: jsas@caerdydd.gov.uk

David Jones (Arolygydd Graddnodi)
Ffôn: 02920 871977
E-bost: david.jones6@caerdydd.gov.uk

## ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Rwyf i / Rydym ni..........................................................wedi darllen yr amodau atodedig a thrwy hyn yn cynnig, yn amodol ar gontract, y swm rhentu canlynol am y drwydded 12 mis:

£ ........................................................... (punt) ........................................... (ceiniog)

**(£ : c) yr wythnos, mis, chwarter (dileer fel y bo'n briodol) ac eithrio TAW**

Rwyf i/Rydym ni yn deall wrth wneud y cynnig hwn y byddwn yn talu'r holl gostau ein hunain ac nad yw'r Cyngor dan unrhyw rwymedigaeth i dderbyn unrhyw gynnig.

Rwyf i/Rydym ni’n datgan nad oes gennym unrhyw gysylltiad ag unrhyw gynllun neu gytundeb a fyddai'n golygu:

Fy mod / Ein bod yn rhoi gwybodaeth i unrhyw berson arall am y swm a gynigiwn; a/neu

Fy mod / Ein bod wedi gosod swm y cynnig ymlaen llaw yn unol â threfniant gosod prisiau.

Rwyf i / Rydym ni’n derbyn bod gan y Cyngor yr hawl i ganslo'r contract ac adennill oddi wrthym unrhyw golled sy'n deillio o'r fath drefniant os canfyddir bod gweithred lwgr neu dwyllodrus neu ddiffyg wedi digwydd a bod hynny wedi annog y Cyngor i fynd i gontract.

Rwyf i / Rydym ni yn cytuno cyn derbyn y cynnig hwn, petai amheuon yn codi mewn cysylltiad â'r swm a gynigir, y byddai cyfle’n cael ei roi i ni esbonio'r swm neu dynnu'r cynnig yn ôl.

Rwyf i / Rydym ni yn cytuno na fydd unrhyw amodau neu gyfyngiadau a ychwanegir gennym at y cynnig neu unrhyw newidiadau diawdurdod a wneir i unrhyw fanylion sy'n rhan o'r cynnig yn effeithio ar y testun gwreiddiol ond y gallai hynny arwain at wrthod y cynnig.

Rwyf i / Rydym ni yn cytuno y bydd y cynnig yn parhau ar agor i'w dderbyn gan y cyngor ac na fyddwn yn ei dynnu'n ôl, am gyfnod o 28 diwrnod o'r dyddiad olaf a nodwyd ar gyfer derbyn cynigion neu unrhyw hysbysiad a roddwyd yn ymwneud â hynny.

Rwyf i / Rydym ni yn cadarnhau bod hwn yn gynnig dilys.

Rwyf i / Rydym ni’n cytuno i dalu’r ffioedd syrfewyr o £550.00 a’r ffi gyfreithiol o £460.00

**<u>Nid yw hwn yn gynnig ymrwymol a cheidw’r Cyngor yr hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig a gaiff.</u>**

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

| | |
|---|---|
| **Bwydlen â phrisiau [20%]**<br>**Dylech gynnwys yr ystod a'r math o fwyd a diodydd yr ydych yn bwriadu eu gweini ynghyd â gwybodaeth am brisiau** | |
| **Datganiad o brofiad blaenorol a chymwysterau arlwyo [10%]**<br>**Os oes gennych fusnes bwyd nodwch eich sgôr ASB cyfredol** | |
| **Datganiad Amgylcheddol [10%]**<br>**Efallai hoffech nodi materion sy'n ymdrin â lleihau gwastraff, eich ymrwymiad i leihau llygredd aer, defnydd dŵr, atal gollyngiadau ac atal llygredd, ailgylchu, rheoli gwastraff a sbwriel ac ati.** | |
| **Amserlen fasnachu ddangosol [10%]**<br>**Nodwch unrhyw ddiwrnodau, amseroedd arfaethedig a sut y bydd yn newid gyda'r tymhorau. Faint o staff fydd yn cefnogi'r amserlen fasnachu? Pa yswiriant sydd ar gael ar gyfer cyfnodau salwch a gwyliau?** | Dylech gynnwys atebion i'r rhain yn eich cais fel dogfennau ar wahan |
| **Profiad busnes a chynllun busnes [10%]**<br>**Rhowch dystiolaeth o'ch hygrededd fel person busnes a/neu eich cynllun busnes amlinellol. Dylech gynnwys manylion a delweddau o'r cerbyd y byddwch yn masnachu ohono, cysyniad brand/brand a rhai rhagolygon incwm a gwariant** | |
| **Eich cynnig ariannol [40%]**<br>**Nodwch sut yr ydych yn bwriadu trefnu eich taliadau. Os ydych yn bwriadu cysylltu'r rhain â pherfformiad busnes, sut byddwch yn gwneud hyn? Ac os felly, pa dystiolaeth o berfformiad fyddwch chi'n ei darparu?** | |

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad** | |
| **Ffôn** | |
| **Enw** | |
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r tyst** | |
| **Llofnod y tyst** | |
| **Dyddiad** | |

## ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Os yw'r Cynigydd yn "gorff" neu'n sefydliad corfforedig, dylai ysgrifennydd y cwmni neu'r cyfarwyddwr awdurdodedig "neu ymddiriedolwr" lofnodi. Yn achos partneriaeth dylai partner lofnodi. Yn achos unigolyn y perchennog ddylai lofnodi.

Ni ddylid datgysylltu'r math hwn o gynnig a dylid cwblhau'r ddogfen gyfan a'i dychwelyd trwy e-bost i:

**David.Jones6@cardiff.gov.uk**

**Rhaid i bob cynnig ddod i law erbyn dydd Gwener 27ain Tachwedd 2020**

Os oes angen y ddogfen hon arnoch yn Saesneg, anfonwch e-bost at propinfo@caerdydd.gov.uk

Mae croeso i chi hefyd fynd i wefan Ystadau Strategol yn https://www.cardiffcouncilproperty.com/cy/

*Ymwadiad:*

1. *Rhoddir y wybodaeth uchod a'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn amlinelliad cyffredinol yn unig er arweiniad i bartïon â diddordeb ac nid yw'n rhan o gynnig neu gontract.*
2. *Rhoddir yr holl ddisgrifiadau, dimensiynau, cynlluniau, cyfeiriadau at amodau a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannaeth a manylion eraill heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw bartïon â diddordeb ddibynnu arnynt fel ffeithiau ond dylent fodloni eu hunain trwy archwilio, neu fel arall, gywirdeb pob un ohonynt.*
3. *Nid oes gan unrhyw berson a gyflogir gan Gyngor Caerdydd awdurdod i wneud neu roi unrhyw sylwadau neu warant o gwbl yn ymwneud â'r eiddo/tir hwn.*
4. *Ceidw'r Cyngor yr hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig a gaiff.*